

CANLLAWIAU TRAWSGRIFIO
VERBATIM UNED TECHNOLEGAU
IAITH PRIFYSGOL BANGOR

Dewi Bryn Jones, Shân Pritchard, Gruffudd Prys, Gareth Watkins
UNED TECHNOLEGAU IAITH PRIFYSGOL BANGOR

Cynnwys

- 1 Pwrpas y gwaith trawsgrifio verbatim
- 2 Strwythur yr adran hon
- 3 Gair o esboniad ynghylch egwyddorion trawsgrifio verbatim
- 4 Confensiynau Trawsgrifio
 - 4.1 Collnodau
 - 4.2 Symleiddio deuseiniaid
 - 4.3 Llafariaid ymwthiol
 - 4.4 Rhannu geiriau
 - 4.5 Tagiau
 - 4.6 Synau nad ydynt yn eiriol
 - 4.7 Geiriau ag enwau ieithoedd eraill
 - 4.8 Cymreigio berfenwau
 - 4.9 Cywiro gramadeg
 - 4.10 Cywiro cam-siarad
 - 4.11 Atalnodi
 - 4.12 Sillafu llythrennau
 - 4.13 Rhifau
 - 4.14 Trawsgrifio teitlau
 - 4.15 Gorffen gair ar ei hanner
 - 4.16 Gorffen brawddeg ar ei hanner/ailddechrau brawddeg
 - 4.17 Siaradwr yn torri ar draws siaradwr arall
 - 4.18 Egwyddorion trawsgrifio geiriau penodol
- 5 Anonymeiddio'r cynnwys

1 Pwrpas y gwaith trawsgrifio verbatim

Y nod wrth ymgymryd â'r dasg trawsgrifio yw hyfforddi modelau adnabod lleferydd sy'n darparu'r canlyniadau gorau gyda'r maint lleiaf o ddata. I'r perwyl hwnnw rydyn ni wedi mabwysiadu dull 'verbatim' o drawsgrifio.

2 Strwythur yr adran hon

Mae'r adran hon wedi ei hollti'n nifer o adrannau ac is-adrannau. Mae'r rhain yn cynnwys esboniad o'r rheol neu ganllaw dan sylw, a, pan fo'i angen, crynodeb mewn blwch llwyd ar ddiwedd yr adran neu is-adran.

3 Gair o esboniad ynghylch egwyddorion trawsgrifio verbatim

Wrth drawsgrifio'n verbatim rydyn ni'n ceisio adlewyrchu yn union beth mae'r siaradwyr yn eu dweud ar ffurf testun o fewn cyfyngiadau orgraff y Gymraeg. Dyna sydd ei angen ar y dechnoleg rydyn ni'n ei defnyddio at greu systemau trawsgrifio. Er bod rhai timoedd trawsgrifio yn rhyngwladol yn defnyddio wyddor yr IPA (International Phonetic Alphabet) wrth drawsgrifio, ein teimlad ni yw bod defnyddio wyddor y Gymraeg yn taro'r cydbwysedd mwyaf priodol rhwng hwylustod y trawsgrifio a safon yr allbwn.

Rydyn ni wedi llunio egwyddorion penodol er mwyn diffinio a safoni'r modd yr hoffwn i chi drawsgrifio'n verbatim. Y brif egwyddor yw y dylid dilyn yr ynganiad a glywir yn y clip sain wrth drawsgrifio. Er enghraifft os yw siaradwr yn dweud chwara neu amal, yna rydyn ni'n trawsgrifio chwara ac amal, yn hytrach na'u safoni i chwarae ac aml. Rydyn ni hefyd yn trawsgrifio synau nad ydynt yn eiriol, megis yym, hmm, m-hm, a geiriau llanw megis ch'mod, 'sti, 'lly a 'de. Nid ydym yn cywiro iaith na gramadeg siaradwyr.

Crynodeb

- Trawsgrifiwch bob sŵn dynol yr ydych yn ei glywed, a gwnewch hynny yn union fel yr ydych yn ei glywed.

4 Confensiynau Trawsgrifio

Datblygwyd y confensiynau trawsgrifio hyn er mwyn sicrhau bod y trawsgrifiadau nid yn unig yn verbatim ond hefyd yn gyson. Mae'n bwysig pwysleisio ein bod ni wedi datblygu'r egwyddorion hyn er mwyn creu trawsgrifiadau i hwyluso hyfforddi modelau adnabod lleferydd yn hytrach na cheisio creu trawsgrifiadau at ddefnydd isdeitlo, ond ein bod hefyd yn ceisio sicrhau y bydd modd mapio'r ffurfiau i'r math o ffurfiau a ddefnyddir wrth isdeitlo.

4.1 Collnodau

Mae pobl yn aml yn hepgor llythrennau wrth siarad. Er enghraifft, ar lafar bydd pobl yn tueddu i ddweud ma yn hytrach na mae. Wrth drawsgrifio'n verbatim, rhaid hepgor yr e sy'n ffurfio'r ddeusain ae lle nad yw'r ddeusain i'w chlywed. Gan y byddai hynny'n creu amwyster yn y trawsgrifiadau o ran a yw ma yn cynrychioli mae yntau yma, rydyn ni'n collnodi mae i ma' ac yma i 'ma. Mae hynny er mwyn ein galluogi i drosi'r ffurfiau verbatim i ffurfiau mwy safonol cyfatebol maes o law fel y bydd modd i ni gael fersiynau gwahanol o'r corpws yn y dyfodol.

Er mwyn osgoi bod y corpws yn cael ei lethu gan gollnodau, ni ddylid ychwanegu collnodau i farcio pob un llythyren sy'n cael ei hepgor gan siaradwyr, fodd bynnag. Yn hytrach, dylid defnyddio collnodau yn unig i wahaniaethu rhwng gwahanol eiriau fyddai'n cael eu sillafu'r union yr un fath fel arall.

Er enghraifft, gan nad yw'r ffurf gwitho (sef ynganiad llafar o gweithio) yn gwrthdaro â ffurf ar air arall, mae'n briodol defnyddio gwitho yn hytrach na ffurf wedi ei chollnodi fel gw'ith'o.

Ar y llaw arall, rydym yn defnyddio collnodau wrth drawsgrifio gor'o' i wahaniaethu rhwng gorfod a ffurf trydydd person unigol amser dibynnol presennol gori.

Weithiau, bydd rhai siaradwyr yn hepgor llythrennau o gyfres o eiriau ac yn ynganu'r geiriau hynny fel un gair. Er enghraifft, byddai rhai siaradwyr, wrth ynganu Bydd raid i fi fynd, yn hepgor yr -ydd o bydd, yn ogystal â'r -d o raid, a naill ai'n hepgor y rhagenw i yn gyfan gwbwl, neu'n ei gyfuno gyda'r i flaenorol yn rai'. Clywn Brai fi fynd, felly, ond yn gyffredinol dylid ceisio osgoi creu geirffurf newydd sydd yn gyfuniad o fwy nag un gair unigol. O ganlyniad, B' rai' fi fynd fyddai'n briodol o ran trawsgrifio'r enghraifft uchod.

Ceir eithriad i'r rheol hon, fodd bynnag, a hynny wrth drawsgrifio geiriau llanw, sef y geiriau hynny fel like yn Saesneg mewn brawddeg fel I was, like, a bit worried, nad ydynt yn meddu ar eu hystyr lythrennol, ac sydd felly ddim yn angenrheidiol yn y lleferydd. Yn aml yn y Gymraeg, bydd pobl yn cywasgu nifer o eiriau'n un ffurf a'i defnyddio fel gair llanw, er enghraifft wrth droi'r geiriau chi'n gwybod yn air llanw ar ffurf ch'od neu ch'o'. Gan mai geiriau llanw ydynt, mae'n briodol eu trawsgrifio fel un gair, yn dibynnu ar yr hyn a glywir.

Dylid hefyd ddefnyddio collnod pan fo ffurf gair sydd â llafariad coll yn debyg iawn i ffurf Saesneg, a gwneud hynny er mwyn gwahaniaethu rhyngddynt. Er enghraifft, o'dd (sef ynganiad o oedd) sy'n briodol, nid odd. Mae hyn oherwydd mai'n bwriad i ddatblygu modelau dwyieithog sy'n gallu trin ac ymdopi a'r Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr.

Crynodeb

- Dylid defnyddio collnodau i wahaniaethu neu ddadamwyso rhwng gwahanol ffurfiau e.e.
 - *‘yn* (sy’n ynganiad o *ein*) a’r arddodiad *yn*
 - *dy’* (sy’n ynganiad o *dydd*) a’r rhagenw *dy*
- Dylid defnyddio collnodau i wahaniaethu neu ddadamwyso rhwng ffurf Cymraeg sy’n debyg i ffurf Saesneg e.e.
 - *o’dd* (sy’n ynganiad o *roedd*) sy’n briodol, nid *odd*
 - *on’* (sy’n ynganiad o *ond*) sy’n briodol, nid *on*
- OND peidiwch â gor-ddefnyddio collnodau, hynny yw pan nad oes angen dadamwyso, e.e.
 - *ffor* (sy’n ynganiad o *ffordd*) sy’n briodol, nid *ffor’*
 - *hein* (sy’n ynganiad o *rhain*) sy’n briodol, nid *‘hein*
- OND cofiwch gollnodi pan fo sillafu gair heb gollnod yn newid sŵn y llythyren cyn neu ar ôl y collnod e.e.
 - *co’d* sy’n briodol, nid *cod* am *coed*
- Dylid osgoi cyfuno mwy nag un gair unigol a chreu geirffurf newydd e.e.
 - *B’rai’ fi fynd* (sef ynganiad o *Bydd raid i fi fynd*) sy’n briodol, nid *Brai fi fynd*
- OND mae geiriau llanw yn eithriad i’r rheol hon e.e.
 - *t’wel’* (sef ynganiad o *ti’n gweld*) sy’n briodol, nid *twel*
 - *‘sti* (sef ynganiad o *a wyddost ti*) sy’n briodol, nid *sti*

4.2 Symleiddio deuseiniaid

Ar lafar mae pobl yn aml yn symleiddio deuseiniaid. Er enghraifft, yn y De mae pobl yn tueddu i newid y deusain ae yn e. Yn y De, felly, mae’r gair chwarae yn troi’n chware. Yn y Gogledd, fodd bynnag, mae pobl yn tueddu i newid y deusain ae yn a. Yn y Gogledd, felly, mae’r gair chwarae yn troi’n chwara.

Eto dylid trawsgrifio yn ôl yr hyn â glywid er mwyn glynu at egwyddorion trawsgrifio verbatim.

Dylid bod yn ofalus wrth drawsgrifio siaradwr sy’n symleiddio deusain, fodd bynnag, gan fod angen sicrhau dadamwyso rhwng ffurfiau trwy ddefnyddio collnod pan fo’n briodol.

Er enghraifft does dim angen ychwanegu collnod at ddiwedd y gair petha (pethau), ond mae angen ychwanegu collnod at y gair weithia’ (weithiau) er mwyn dadamwyso rhyngddo a nifer o ffurfiau berfol posib gweithio (e.e. “fe weithia’n ddiwyd”).

Crynodeb

- Pan fo siaradwr yn symleiddio deuseiniaid dylid trawsgrifio yn ôl yr hyn â glywir er mwyn glynu at egwyddorion trawsgrifio verbatim

4.3 Llafariaid ymwthiol

Ar lafar mae pobl yn tueddu i ychwanegu llafariaid yng nghanol geiriau. Er enghraifft, yn aml, mae pobl yn ychwanegu llafariad at y geiriau aml a pobl, a’u troi’n amal a pobol.

Llafariaid ymwthiol yw’r llafariaid ychwanegol hyn, ac mae’n rhaid eu cynnwys yn y trawsgrifiad.

4.4 Rhannu geiriau

Dylid ceisio cadw’r rhagenw i fel gair ar wahân. Er enghraifft, dylid rhannu nesh i (ynganiad Gogleddol o wnes i) yn hytrach na defnyddio neshi gan ei bod yn glir bod dwy elfen wahanol yma, sef y ferf gwnes a’r rhagenw i.

4.5 Tagiau

Wrth drawsgrifio, dylid defnyddio’r tagiau canlynol yn unig i recordio elfennau sydd y tu hwnt i leferydd yr unigolion:

<anadlu>
<anadlu i mewn yn sydyn>
<aneglur>
<cerddoriaeth>
<chwerthin>
<chwibanu>
<chwythu allan>
<clapio>
<clirio gwddf>
<crio>
<cusanu>
<ochneidio>
<PII>
<peswch>
<sniffian>
<tros-siarad>
<twtian>

4.6 Synau nad ydynt yn eiriol

Mae’n bwysig bod synau nad ydynt yn eiriol yn cael eu trawsgrifio’n gyson. Er enghraifft, defnyddiwch yy bob tro (yn hytrach nag yrr, yr neu err neu gymysgedd o’r rheiny) i gynrychioli neu adlewyrchu’r sŵn mae siaradwr yn ei ddefnyddio wrth geisio meddwl neu oedi wrth siarad.

Dylid defnyddio’r tagiau canlynol yn unig i recordio synau nad ydynt yn eiriol:

yy (sŵn er yn Saesneg)
yym (sŵn um yn Saesneg)
hmm
m-hm
mm
ww
ah
oh

4.7 Geiriau ag enwau ieithoedd eraill

Dylid trawsgrifio bob gair neu ymadrodd iaith arall megis Saesneg neu Ffrangeg, er enghraifft:

Roedd hi’n hoffi siarad gyda’i ffrindiau dros Zoom a postio ar Twitter.
Dwi’n deall so’t of.

Noder, ni dylid geisio Cymreigio enwau pobl na llefydd.

Hynny yw, hyn sy’n briodol:

Jonas Vingegaard oedd yr enillydd yn y pendraw
--

ac nid:

lownys Fingiagôr oedd yr enillydd yn y pendraw
--

4.8 Cymreigio berfenwau

Pan fo siaradwyr yn defnyddio geiriau Saesneg fel berfenwau (trwy ychwanegu io ar ddiwedd y gair er enghraifft) dylid ymdrechu i sillafu’r gair gan ddefnyddio confensiynau sillafu Cymreig yn hytrach nag ychwanegu io at sillafiad Saesneg o’r gair. Er enghraifft dylid trawsgrifio:

heitio yn hytrach na hateio
lyfio yn hytrach na loveio.

4.9 Cywiro gramadeg

Ni ddylid cywiro gramadeg siaradwyr. Er enghraifft, os mai dyma beth mae siaradwr yn ei ddweud:

Beth sydd mewn y flwch?

Yna ni dylid trawsgrifio Beth sydd yn y blwch? er bod blwch yn air gwrywaidd ac felly ddim yn treiglo ar ôl y fannod, ac er mai yn sy’n ramadegol gywir yn y cyd-destun hwn, nid mewn.

4.10 Cywiro cam-siarad

Ni ddylid cywiro cam-siarad neu gam-ynganu siaradwyr. Er enghraifft, yn y frawddeg ganlynol:

enfawr fel y diffyg o fwyd yym efallu cam-drin

mae’n amlwg mai’r gair efallai sydd dan sylw mewn gwirionedd, ond wrth drawsgrifio yn verbatim dylid ei drawsgrifio fel y cafodd ei glywed. **4.11**

Atalnodi

Dylid defnyddio atalnodau llawn, comas, marciau cwestiwn ac ebychnodau pan fo’n briodol wrth drawsgrifio’r lleferydd. Dylid

amgylchynu bob gair neu ymadrodd sydd wedi ei ddyfynnu gyda ”, er enghraifft:

Dywedodd hi “Dwi’n mynd” ond aeth hi ddim.

4.12 Sillafu llythrennau

Yn unol ag egwyddorion trawsgrifio verbatim, dylid glynu at ynganiad y siaradwr wrth drawsgrifio’r llythrennau unigol, hynny yw naill ai wrth iddynt sillafu geiriau neu wrth iddynt ddefnyddio byrfodd megis BBC neu NHS.

Hynny yw, hyn sy’n briodol:

Roedd hi’n gweithio dros y Bi Bi Ec

ac nid:

Roedd hi’n gweithio dros y B B C

na chwaith:

Roedd hi’n gweithio dros y BBC

Mae Tabl 1 yn rhestri’r ffurfiau y dylid eu defnyddio wrth drawsgrifio llythrennau sy’n cael eu hynganu’n draddodiadol, ond yn aml mae siaradwyr yn defnyddio dull llai traddodiadol wrth lefaru llythrennau, hynny yw maent yn ynganu By a Cy, yn hytrach na Bi ac Ec. Mae tabl 2, felly, yn rhestri’r ffurfiau y dylid eu defnyddio wrth drawsgrifio llythrennau sy’n cael eu hynganu mewn ffordd mwy cyfoes.

Yn ogystal, pan fo’r siaradwr yn llefaru llythrennau Saesneg, dylid cyfeirio at dabl 3, sy'n rhestri’r ffurfiau y dylid eu defnyddio wrth drawsgrifio llythrennau Saesneg. Er enghraifft, os yw siaradwr yn ynganu BBC gan ddefnyddio llythrennau Saesneg, yna dylid trawsgrifio:

Roedd hi’n gweithio dros y Bee Bee See

ac nid:

Roedd hi’n gweithio dros y Bi Bi Ec

Dylid defnyddio llythrennau bach os yw siaradwr yn sillafu gair neu’n ynganu llythyren. Er enghraifft:

Rwyt ti’n sillafu Gorffennaf gyda dwy en.

Ond wrth drawsgrifio byrfodd dylid glynu at confensiynau priflythrennu’r byrfodd yna. Hynny yw, hyn sy’n briodol wrth drawsgrifio lleferydd sy’n defnyddio byrfodd Transport for London:

Gwelodd nodyn gan Tee eff El ar Twitter

ac nid:

Gwelodd nodyn gan Tee Eff El ar Twitter

Na chwaith:

Gwelodd nodyn gan tee eff el ar Twitter

Cofiwch hefyd nad ydym yn ynganu llythrennau pob byrfodd. Hynny yw, rydyn ni’n tueddu i ynganu llythrennau unigol wrth siarad am y BBC, ond nid gyda

byrfodd y Gwasanaeth Iechyd Gymraeg, sef GIG. Felly dylid trawsgrifio cyfeiriad at y GIG fel GIG yn hytrach na Gy I Dot Gy, yn dibynnu ar beth y mae'r siaradwr yn ei ddweud wrth gwrs. Gyda rhai byrfoddau rydyn ni'n defnyddio cymysgedd o lefaru llythrennau unigol a lefaru'r byrfodd fel gair. Ystyriwch y byrfodd TGAU, er enghraifft.

Er bod Tabl 1, 2 a 3 isod ar wahân i'w gilydd, mae'n bosib y bydd siaradwr yn newid rhwng ynganiad traddodiadol a chyfoes Cymraeg a/neu Saesneg. Dylid trawsgrifio yr hyn a glywir pan fo hyn yn digwydd.

Llythyren	Sillafiad	Llythyren	Sillafiad	Llythyren	Sillafiad	Llythyren	Sillafiad
a	a	ff	eff	m	em	t	ti
b	bi	g	eg	n	en	th	eth
c	ec	ng	eng	o	o	u	u, u bedol
ch	ech	h	aets, hy	p	pi	w	w
d	di	i	i, i dot	ph	ffi	y	y
dd	edd	j	je	r	er		
e	e	l	el	rh	rhi, rho		
f	ef	ll	ell	s	es		

Tabl 1 - Trawsgrifio ynganiad traddodiadol llythrennau Cymraeg

Llythyren	Sillafiad	Llythyren	Sillafiad	Llythyren	Sillafiad	Llythyren	Sillafiad
a	a	g	gy	n	ny	th	thy
b	by	ng	ngy	o	o	u	u, u bedol
c	cy	h	aets, haets, hy	p	py	v	vy
ch	chy	i	i, i dot	ph	phy	w	wy
d	dy	j	jy	q	ciw	x	ecs
dd	ddy	k	ky, ke	r	ry	y	y
e	e	l	ly	rh	rhy	z	zy
f	fy	ll	lly	s	sy		
ff	ffy	m	my	t	ty		

Tabl 2 - Trawsgrifio ynganiad cyfoes llythrennau Cymraeg

Llythyren	Sillafiad	Llythyren	Sillafiad	Llythyren	Sillafiad	Llythyren	Sillafiad
a	ay	h	aitch, haitch	o	owe	v	vee
b	bee	i	i	p	pee	w	double-you
c	see	j	jay	q	que	x	ex
d	dee	k	kay	r	are	y	wye
e	ee	l	el	s	ess	z	zed, zee
f	eff	m	em	t	tee		
g	gee	n	en	u	you		

Tabl 3 - Trawsgrifio ynganiad llythrennau Saesneg

Crynodeb

- Dylid glynu at ynganiad y siaradwr wrth drawsgrifio'r llythrennau unigol a sicrhau cysondeb wrth wneud trwy defnyddio'r ffurfiau fel eu pennir yn Nhabl 1, 2 a 3 e.e.
 - Pam bo' 'na aets yn y gair enghraifft gwed?
 - Fi'n credu bo' cyrsie'r Cy Cy Cy yn wych
 - Ma' Haitch Are 'di bod yn ceiso cysylltu 'to
- Dylid defnyddio llythrennau bach os yw siaradwr yn sillafu gair ne'n ynganu llythyren unigol
 - Yym by y ry gy ly a ry dwi'n credu
- OND dylid lynu at confensiynau priflythrennu'r byrfodd wrth ei drawsgrifio
 - Bi Bi Ec
 - Es Pedwar Ec
 - Tee eff Double-you
- Os yw siaradwr yn ynganu byrfodd fel gair yna dylid trawsgrifio'r byrfodd fel gair, e.e.:
 - Cafodd lythyr gan HEFCW
- mae'n bosib y bydd siaradwr yn newid rhwng ynganiad traddodiadol a chyfoes Cymraeg a/neu Saesneg e.e.
 - Hy two Owe
 - Haitch two O
 - Aets two O

4.13 Rhifau

Dylid trawsgrifio rhifau fel geiriau yn hytrach na digidau, hynny yw hyn sy'n briodol:

Y flwyddyn dwy fil ac ugain

ac nid:

Y flwyddyn 2020

4.14 Trawsgrifio teitlau

Dylid rhoi teitlau megis Dr neu Ms yn llawn. Hynny yw, hyn sy'n briodol:

Bore da Mistyr Huws a Doctor Rhys.

Ac nid:

Bore da Mr Huws a Dr Rhys.

4.15 Gorffen gair ar ei hanner

Dylid marcio gair sydd wedi ei orffen ar ei hanner gyda -. Er enghraifft:
Ma'n rhaid i mi ca- cael diod.

4.16 Gorffen brawddeg ar ei hanner/ailddechrau brawddeg

Dylid marcio brawddeg sydd wedi ei gorffen ar ei hanner gyda ... Er enghraifft:

Ma'n rhaid i mi ca'l... Ma' rhaid i mi brynu diod.

4.17 Siaradwr yn torri ar draws siaradwr arall

Pan fo siaradwr yn torri ar draws y prif lleferydd gan ddefnyddio synau nad ydynt yn eiriol, geiriau neu ymadroddion (megis m-hm, ie, ydi, yn union ac ati), a phan fo'r ddau siaradwr i'w clywed yn glir ag ar wahân, dylid mewnosod ... ar ddiwedd rhan gyntaf y lleferydd toredig, a ... arall ar ddechrau ail ran y lleferydd toredig, fel yn yr enghraifft ganlynol:

Ond y peth yw... M-hm. ...mae'r ddau yn wir

NODER pan fo ail ran y lleferydd toredig yn ymddangos ar ddechrau'r segment, dylid naill ai gyfuno'r segmentau neu defnyddio ### yn lle ... ar dechrau'r ail ran.

Pan nad yw'r ddau siaradwr i'w clywed yn glir ac ar wahân, dylid defnyddio'r tag <ros-siarad>.

4.18 Egwyddorion trawsgrifio geiriau penodol

Er mai glynu at egwyddorion verbatim yw'r peth pwysicaf wrth drawsgrifio, mae'n bwysig hefyd, fel y soniwyd uchod, ein bod yn anelu at fod yn gyson, gan gynnwys o ran sillafu rhai geirffurfiau. Gweler isod restr o eirffurfiau y dylid glynu atynt wrth drawsgrifio, ynghyd â'r ffurfiau y dylid eu hosgoi.

	ydi NID ydy
	dydi NID dydi
	'di NID 'dy (pan fo'r ystyr yn dalfyriad o dydi neu ydi)
	isie NID ishe
	isio NID isho
	'sim NID 's'im NA s'im (pan fo'r ystyr yn dalfyriad o does dim)
	sa NID 'sa (pan fo'r ystyr yn dalfyriad o bysa)
	swn NID 'swn (pan fo'r ystyr yn dalfyriad o byswn)

Noder: Rydym yn bwriadu diweddarau'r egwyddor hon yn gyson. Mae'n bwysig felly eich bod yn ailymweld â'r dudalen hon i sicrhau eich bod yn parhau i drawsgrifio yn unol â'r canllawiau.

5 Anonymeiddio'r cynnwys

Mae angen eithrio trawsgrifiadau sy'n cynnwys Gwybodaeth Bersonol Adnabyddadwy (PII) trwy ychwanegu tag i'r brawddegau sy'n eu cynnwys. Mae PII yn cynnwys, ond nid yn gyfunedig i:

- Enwau
- Rhif ffôn
- Teitlau swyddi/galwedigaethau
- Gweithleoedd
- Enwau manau cyhoeddus
- Lleoliad daearyddol
- Dyddiadau/amseroedd

Wrth drawsgrifio dylid marcio pob segment sydd yn cynnwys PII gyda'r tag <PII> ar ddechrau'r segment. Er enghraifft <PII>

'yn cyfeirad e-bost yw shrubbery_nee@outlook.com

Bydd gwneud hyn yn ein galluogi i hidlo allan pob segment sydd yn cynnwys tag <PII> er mwyn sicrhau na fydd unrhyw wybodaeth bersonol yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r adnodd. Dylid nodi nad oes angen anonymeiddio cyfeiriadau at bobl enwog yn y lleferydd.